Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Penodi aelodau anweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Ionawr 2019

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Penodi aelodau anweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Ionawr 2019

Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016 i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10, 18.11, 19 a 20 Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

O dan Reolau Sefydlog 19 ac 20, mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys ystyried unrhyw adroddiad neu ddogfen a osodir gerbron y Cynulliad yn ymwneud â'r defnydd o adnoddau, neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae hyn yn cynnwys ymgymryd â gwaith craffu ar gyllideb y cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

Ymhlith cyfrifoldebau'r Pwyllgor o dan Reolau Sefydlog 18.10 ac 18.11, mae goruchwylio llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, fel y nodir yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried unrhyw gynigion ar gyfer datganoli pwerau cyllidol i Gymru a chynnydd yn hyn o beth, fel rhan o'i gyfrifoldebau.

Gall y Pwyllgor hefyd graffu ar ddeddfwriaeth a gyflwynwyd i'r Cynulliad.

Cadeirydd y Pwyllgor:

Llyr Grufydd AC
Plaid Cymru
Gogledd Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:

Rhun ap Iorwerth AC
Plaid Cymru
Ynys Mon

Alun Davies AC
Llafur Cymru
Blaenau Gwent

Neil Hamilton AC
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mike Hedges AC
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe

Rhianon Passmore AC
Llafur Cymru
Islwyn

Nick Ramsay AC
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy

Cynnwys

Casgliadau **5**

1. Cefndir **6**

2. Rôl y Pwyllgor Cyllid **7**

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru 7

Y broses recriwtio 7

Canlyniad y broses recriwtio 8

Casgliadau

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn penodi Lindsay Foyster yn aelod anweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru. ..... Tudalen 9

Casgliad 2. Mae'r Pwyllgor yn penodi David Francis yn aelod anweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru. ..... Tudalen 9

1. Cefndir

1. Ar 5 Mawrth 2013, pasiodd y Cynulliad Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (y Ddeddf). Mae'r Ddeddf yn nodi trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2013.

2. Yn benodol, mae'r Ddeddf yn rhoi llawer o gyfrifoldebau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros benodi pum aelod anweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru (gan gynnwys Cadeirydd y Bwrdd). Mae'r Cynulliad hefyd yn gyfrifol am y trefniadau i dalu Aelodau anweithredol.

3. Y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) sy'n gyfrifol am oruchwylio Swyddfa Archwilio Cymru. O dan Reolau Sefydlog 18.10 (v), 18.10 (vii) ac 18.10 (viii) mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau'r Cynulliad sy'n ymwneud â phenodi aelodau anweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru (ac eithrio'r Cadeirydd), a phennu telerau penodi (gan gynnwys tâl) yr Aelodau hynny.

2. Rôl y Pwyllgor Cyllid

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

4. Yn unol â'r Ddeddf, gellir penodi aelodau anweithredol o'r Bwrdd am gyfnod o hyd at bedair blynedd, a gallant wasanaethu am hyd at ddau dymor.[1]

5. Mae tymor gwasanaeth dau o'r aelodau anweithredol presennol yn dod i ben ar 15 Mawrth 2019. Mae un o'r aelodau anweithredol wedi gwasanaethu ar y Bwrdd am un tymor yn unig ac, felly, gall wasanaethu am dymor arall, (cyhyd ag y bo'n bodloni'r gofynion cymhwyster a nodir yn y Ddeddf). Mae'r Aelod anweithredol arall yn agosáu at ddiwedd ei ail dymor ar y Bwrdd a bydd yn rhoi'r gorau i'r rôl ar ddiwedd y tymor presennol.

6. Er nad yw'r Ddeddf yn caniatáu i aelodau anweithredol gael eu penodi fwy na dwywaith, mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i benodi pob aelod anweithredol ar sail "canlyniadau cystadleuaeth deg ac agored".[2]

7. Cafodd yr aelod anweithredol a oedd yn agosáu at ddiwedd ei dymor gwasanaeth cyntaf o bedair blynedd, ei wahodd i gyfweliad gyda'r ymgeiswyr eraill a oedd ar y rhestr fer.

Y broses recriwtio

8. Rhoddodd y Pwyllgor hysbyseb ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gofyn am ymgeiswyr a oedd â diddordeb mewn gwneud cais i fod yn Aelodau o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru. Hysbysebwyd yn y mannau a ganlyn:

- Swyddi Cymru;
- The Times online;
- The Guardian online ar-lein;
- Golwg 360;
- Gwefan Cyllid Cyhoeddus;
- Gwefan Llywodraeth Cymru;

[1] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 1, paragraff 6

[2] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 1, paragraff 4

- Women on Boards.

9. Ymddangosodd yr hysbyseb ar 1 Tachwedd 2018, a'r dyddiad cau oedd 23 Tachwedd 2018. Daeth 22 o geisiadau i law gan 6 o ferched ac 16 o ddynion. Dewiswyd 6 ymgeisydd i'w cyfweld, gan gynnwys yr aelod presennol o'r Bwrdd a oedd yn gymwys i wasanaethu am ail dymor. Tynnodd un ymgeisydd ei gais yn ôl cyn y cyfweliad.

10. Cynhaliwyd y cyfweliadau ar 8 a 21 Ionawr 2019. Gofynnwyd i'r ymgeiswyr roi cyflwyniad byr ac fe'u holwyd ar sail y meini prawf a nodwyd yn y disgrifiad swydd. Dyma aelodau'r panel:

- Llyr Gruffydd AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid;
- Isobel Garner, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru;
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pennaeth Adnoddau Dynol.

Canlyniad y broses recriwtio

11. Yn dilyn y broses recriwtio, dewiswyd dau ymgeisydd yn aelodau anweithredol am gyfnod o bedair blynedd, gan ddechrau ar 16 Mawrth 2019.

12. Cyn gosod y telerau ac amodau ar gyfer penodi'r ymgeiswyr llwyddiannus, ymgynghorydd y Pwyllgor Cyllid â'r Cyfarwyddwr Llywodraethu yn Llywodraeth Cymru,[3] a gadarnhaodd i'r Pwyllgor ar 25 Ionawr 2019 ei fod yn fodlon â chynigion y Pwyllgor.

13. Dewiswyd y tri ymgeisydd a ganlyn:

Lindsay Foyster – Mae Ms Foyster yn aelod cyfredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ac mae ganddi brofiad helaeth o weithredu ar lefel Bwrdd yn y trydydd sector a'r sector cyhoeddus. Mae ganddi dros 25 mlynedd o brofiad uwch-reoli gweithredol yn y trydydd sector ac arbenigedd cryf ym meysydd cynllunio strategol, rheoli newid a rheoli pobl. Dyma ail dymor, a thymor olaf, Ms Foyster ar Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, a chynigiwyd tymor pedair blynedd arall iddi hyd at 2023.

David Francis – Mae Mr Francis wedi treulio ei holl yrfa hyd yma yn gweithio i gorfforaethau FTSE 100 mawr. Mae ei brofiad blaenorol yn cynnwys

[3] Mae paragraff 9(1) o Atodlen 1 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad ymgynghori "â pherson priodol sydd â goruchwyliaeth dros benodiadau cyhoeddus" cyn gwneud trefniadau o'r fath.

arbenigedd ym meysydd cynllunio strategol, cyfathrebu mewnol ac allanol, gwerth corfforaethol a rheoli risg. Dyma benodiad cyntaf Mr Francis i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru a chynigiwyd tymor pedair blynedd iddo hyd at 2023.

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn penodi Lindsay Foyster yn aelod anweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru.

Casgliad 2. Mae'r Pwyllgor yn penodi David Francis yn aelod anweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru.